

TATHAN (Tathai, Llad. Tatheus), sant, fl. yn y 5ed ganrif

Enw: Tathan
Rhiant: Tathalius
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: sant
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Harold Idris Bell

Ceir ei fuchedd yn y B.M. MS. Cotton Vespasian A. xiv; ym muchedd **Cadog**, lle'r ymddengys hefyd, enwir ef Meuthi (yr un ydyw'r ddau enw; ymddangosant yn wahanol oherwydd atodi'r blaenddodau anrhydeddus 'mo' a 'to' a'r oddodiad anwesog 'an'). Ganed ef, fe ddywedir, yn Iwerddon, yn fab y brenin Tathalius (Tuathal). Y mae dyddiad Tuathal Maelgarb (532-544) yn rhy ddiweddar; y mae'n bosibl i'r Tathalius hwn deyrnasu, nid yn Iwerddon, ond ymhlith Gwyddyf Gogledd Cymru. Chwedlonol ydyw'r mwyafrif o'r manylion a geir yn y fuchedd, ond y mae'n glir mai yng Ngwent yr ymsefydlodd Tathan, ac i Garadog, brenin y ddwy Went, roddi iddo dir yng Nghaerwent, ac iddo yntau sefydlu yno ysgol a mynachlog. Yr oedd **Cadog**, mab y **brenin Gwynllyw**, yn ddisgybl iddo. 26 Rhagfyr yw ei ddydd gŵyl (ond yn yr *English Martyrology* 23 Tachwedd). Ef yw nawddsant Caerwent, ac, yn ei enw Meuthi, y ddifianedig Lanfeithin ym mhlwyf Llancarfan.

Awdur

Syr Harold Idris Bell, (1879 - 1967)

Ffynonellau

Bangor Welsh MSS. Soc., ii, 1907, *Vita Sancti Tathie and Buched Seint y Katrin* (Bangor 1909)

Wade-Evans, *Welsh Christian Origins* (Rhydychen 1934), 1934, 118-9

Baring-Gould a John Fisher, *The Lives of the British Saints: the saints of Wales and Cornwall and such Irish saints as have dedications in Britain*iv, 211-4

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q4452364

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Bell, H. I., (1953). TATHAN (Tathai, Llad. Tatheus), sant, fl. yn y 5ed ganrif. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-TATH-AN0-0450>

Prifysgol

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government